| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **IS -BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG** |
| **DYDDIAD:** | **3 MEHEFIN 2019** |
| **TEITL:** | **CAIS AM DRWYDDED EIDDO – BRAICH GOCH BUNKHOUSE AND INN, CORRIS, MACHYNLLETH, SY20 9RD** |
| **PWRPAS:** | **ER PENDERFYNIAD** |
| **AWDUR:** | **PENNAETH AMGYLCHEDD** |

## CAIS A DDERBYNIWYD

Atodir cais am drwydded eiddo newydd ar gyfer Braich Goch Bunkhouse and Inn, Corris, Machynlleth, SY20 9RD gan Gwmni Buddiant Cymunedol.

Gwneir y cais mewn perthynas â dangos dramâu a ffilmiau, chwarae cerddoriaeth byw, cerddoriaeth wedi ei recordio, ar ac oddi ar yr eiddo, perfformiadau o ddawns gan gynnwys adloniant arall, cyflenwi alcohol a darparu lluniaeth hwyr y nos. Bwriedir rhedeg yr eiddo fel canolfan addysgiadol, breswyl ac adnodd hanfodol i unigolion a sefydliadau cymunedol.

Mae manylion yr hyn a ofynnir amdano o ran gweithgareddau trwyddedig ac oriau yn y tabl isod, yn ogystal ag yn yr atodiadau i'r adroddiad.

Mae swyddogion yr Awdurdod Trwyddedu yn fodlon fod tystiolaeth ddigonol fod y cais wedi ei gyflwyno yn unol â gofynion y Ddeddf Drwyddedu 2003 a'r rheoliadau perthnasol ac felly yn ddilys.

Oherwydd bod sylwadau sydd yn berthnasol i'r amcanion trwyddedu wedi ei wneud ar y cais; fe gyflwynir y cais er ystyriaeth yr Is - Bwyllgor hwn.

Gweler y tabl amgaeedig am fanylion yr oriau arfaethedig:

| GWEITHGAREDDAU TRWYDDEDIG | TRWYDDED ARFAETHEDIG |
|---|---|
| **Dramau/Plays** - Dan Do ac Awyr Agored/Indoors and Outdoors | Dydd Llun/Monday 15:00-22:00<br>Dydd Mawrth/Tuesday 15:00-22:00<br>Dydd Mercher/Wednesday 15:00-22:00<br>Dydd Iau/Thursday 15:00-22:00<br>Dydd Gwener/Friday 15:00-22:00<br>Dydd Sadwrn/Saturday 15:00-22:00<br>Dydd Sul/Sunday 15:00-22:00 |
| **Ffilmiau/Films** - Dan Do/Indoors | Dydd Llun/Monday 15:00-22:00<br>Dydd Mawrth/Tuesday 15:00-22:00<br>Dydd Mercher/Wednesday 15:00-22:00<br>Dydd Iau/Thursday 15:00-22:00<br>Dydd Gwener/Friday 15:00-22:00<br>Dydd Sadwrn/Saturday 15:00-22:00<br>Dydd Sul/Sunday 15:00-22:00 |
| **Cerddoriaeth Fyw/Live Music** - Dan Do/Indoors | Dydd Llun/Monday 14:00-23:30<br>Dydd Mawrth/Tuesday 14:00-23:30<br>Dydd Mercher/Wednesday 14:00-23:30 |

| | |
|---|---|
| | Dydd Iau/Thursday 14:00-23:30<br>Dydd Gwener/Friday 14:00-02:00<br>Dydd Sadwrn/Saturday 14:00-02:00<br>Dydd Sul/Sunday 14:00-23:30 |
| **Cerddoriaeth wedi'i Recordio/Recorded Music** - Dan Do ac Awyr Agored/Indoors and Outdoors | Dydd Llun/Monday 12:00-23:30<br>Dydd Mawrth/Tuesday 12:00-23:30<br>Dydd Mercher/Wednesday 12:00-23:30<br>Dydd Iau/Thursday 12:00-23:30<br>Dydd Gwener/Friday 12:00-02:00<br>Dydd Sadwrn/Saturday 12:00-02:00<br>Dydd Sul/Sunday 12:00-23:30 |
| **Perfformiadau Dawns/Performances of Dance** - Dan Do ac Awyr Agored/Indoors and Outdoors | Dydd Llun/Monday 14:00-22:00<br>Dydd Mawrth/Tuesday 14:00-22:00<br>Dydd Mercher/Wednesday 14:00-22:00<br>Dydd Iau/Thursday 14:00-22:00<br>Dydd Gwener/Friday 14:00-22:00<br>Dydd Sadwrn/Saturday 14:00-22:00<br>Dydd Sul/Sunday 14:00-22:00 |
| **Adloniant Arall/Other Entertainment** - Dan Do ac Awyr Agored/Indoors and Outdoors | Dydd Llun/Monday 14:00-23:00<br>Dydd Mawrth/Tuesday 14:00-23:00<br>Dydd Mercher/Wednesday 14:00-23:00<br>Dydd Iau/Thursday 14:00-23:00<br>Dydd Gwener/Friday 14:00-23:00<br>Dydd Sadwrn/Saturday 14:00-23:00<br>Dydd Sul/Sunday 14:00-23:00 |
| **Lluniaeth Hwyr y Nos/Late Night Refreshments** - Dan Do/Indoors | Dydd Llun/Monday 23:00-00:00<br>Dydd Mawrth/Tuesday 23:00-00:00<br>Dydd Mercher/Wednesday 23:00-00:00<br>Dydd Iau/Thursday 23:00-00:00<br>Dydd Gwener/Friday 23:00-00:00<br>Dydd Sadwrn/Saturday 23:00-00:00<br>Dydd Sul/Sunday 23:00-00:00 |
| **Cyflenwi Alcohol/Supply of Alcohol** - Ar yr Eiddo/On Premises | Dydd Llun/Monday 12:00-23:30<br>Dydd Mawrth/Tuesday 12:00-23:30<br>Dydd Mercher/Wednesday 12:00-23:30<br>Dydd Iau/Thursday 12:00-23:30<br>Dydd Gwener/Friday 12:00-02:00<br>Dydd Sadwrn/Saturday 12:00-02:00<br>Dydd Sul/Sunday 12:00-23:30 |

**Mesurau a argymhellir gan yr ymgeisydd i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu**

- Gweithdrefnau rheolaeth gadarn a hyfforddiant staff gan gynnwys gwirio cardiau adnabod, diogelwch personol a thrafod a datrys anghydfodau
- Rheoli y nifer o bobl ar yr eiddo, a peidio a hyrwyddo yfed anghyfrifol

- Cydymffurfio gyda rheoliadau iechyd, diogelwch a thân
- Rhaid i blant fod o dan oruchwyliaeth eu rhieni neu warchodwyr, a ni chaniateir ar yr eiddo ar ôl 11yh
- Sicrhau bod y ffilmiau yn addas i'r gynulleidfa, yn unol a dosbarthiad oedran y ffilm
- Monitro lefelau sŵn a lleihau lefelau ar ôl 11yh, gan gynnwys cau ffenestri a drysau

Gweler manylion llawn y mesurau a argymhellir yn adran **M** o'r cais

## <u>YMGYNGHORIAD</u>

Fe ymgynghorwyd ar y cais, ac fe dderbyniwyd ymatebion fel a ganlyn -

| YMATEBION | SYLWADAU |
|---|---|
| Heddlu Gogledd Cymru | E-bost – dim gwrthwynebiad |
| Cyngor Gwynedd Amgylchedd | E-bost – sylwadau ac amodau |
| Cyngor Cymuned Corris | E-bost – gwrthwynebiad |

### <u>Gwrthwynebiad Cyngor Cymuned Corris</u>

Derbyniwyd gwrthwynebiad i'r cais yn sgil oriau gwerthu alcohol a cherddoriaeth hyd at 2yb, oherwydd pryderon diogelwch ffyrdd a niwsans sŵn.

### <u>Sylwadau  Gwarchod y Cyhoedd Adran Amgylchedd Cyngor Gwynedd</u>

Derbyniwyd sylwadau gan  Gwarchod y Cyhoedd yn pryderu am yr  oriau cerddoriaeth byw ar y cais gwreiddiol. Cytunodd yr ymgeisydd i ostwng yr oriau ar gyfer cyflenwi alcohol, oriau agored i aelodau'r cyhoedd sydd ddim yn preswylio , oriau cerddoriaeth byw a wedi recordio, a chytundeb na fydd cerddoriaeth yn cael ei chwarae y tu allan i'r eiddo. Cytunodd yr ymgeisydd i dderbyn amodau trwydded pellach wedi nodi yn yr atodiad, megis amodau sŵn, sbwriel a chau'r gardd cwrw.

Cytunodd yr ymgeisydd i'r canlynol yn benodol o ran yr oriau–

- Gwerthiant alcohol i aelodau 'r cyhoedd nad ydynt yn preswylio hyd at 00:00 llun i Sadwrn a 23:30 dydd Sul
- Bod yn agored i'r cyhoedd hyd at 00:30 Llun i Sadwrn ac 23:30 ar ddydd Sul
- Cerddoriaeth fyw 14:00 tan 23:00 Sul i dydd Iau14:00 i 00:00 dydd Gwener a Sadwrn
- Cerddoriaeth wedi ei recordio14:00 tan 23:30 dydd Sul i dydd Iau ac 14:00 i 00:00 Nos Wener a nos Sadwrn
- Dim cerddoriaeth o gwbl mewn mannau allanol

Gweler atodiad yr adroddiad am fanylion llawn a dderbyniwyd.

## <u>ARGYMHELLIAD</u>

Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried y cais yn unol â gofynion y Ddeddf Trwyddedu 2003. Argymhellir fod y cais yn cael ei ganiatáu yn unol a'r amodau diwygiedig a gytunwyd gyda Gwarchod y Cyhoedd.